Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn

**Stryd Baglan**
**Treherbert**
**Treorci**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF42 5AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 187 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 144 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 15 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 37.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 3.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 6.3% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 13/11/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn yn ysgol gynhwysol a gofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i bwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol â staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dangos ymdeimlad o falchder yn eu cyflawniadau. Mae staff yn poeni am y disgyblion ac yn darparu ymyriadau addas i gefnogi eu lles.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi dechrau gwneud newidiadau cadarnhaol i gryfhau'r tîm arweinyddiaeth a rôl y corff llywodraethol. Mae cyfleoedd cynyddol i lywodraethwyr gysylltu ag aelodau staff eraill i gasglu gwybodaeth uniongyrchol am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi cryfhau gweithio mewn partneriaeth rhwng yr ysgol a theuluoedd ac mae hyn yn helpu gwella ymgysylltiad disgyblion a theuluoedd ym mywyd yr ysgol.

At ei gilydd, mae mwyafrif yr addysgu yn briodol. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau i ddisgyblion ac yn gwneud defnydd addas o'r ardal leol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn y dreftadaeth a'r diwylliant lleol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio asesiadau parhaus i gynllunio dysgu sy'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Nid ydynt yn adeiladu ar ddysgu disgyblion yn ddigon da, yn enwedig wrth ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion.

Megis dechrau datblygu y mae prosesau hunanwerthuso a monitro ysgol gyfan. Pan fydd arweinwyr yn defnyddio asesiadau'n gywir, yn cynllunio hyfforddiant perthnasol ac yn cymryd camau i wella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth, cyflawnir deilliannau cadarnhaol mewn dysgu. Mae hyn yn amlwg yn y cynnydd a wna disgyblion mewn darllen. Fodd bynnag, at ei gilydd, gwneir defnydd cyfyngedig o dystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanwerthuso, ac nid yw'r monitro'n canolbwyntio'n ddigon da ar effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

Ceir synnwyr cryf o waith tîm ymhlith staff a llywodraethwyr a gweledigaeth ac awydd clir i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol a gwella deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Er mai megis dechrau datblygu y mae hyn, mae arweinwyr yn gweithio'n agos ag ysgolion eraill a phartneriaid i gryfhau gwybodaeth staff ac ehangu gwybodaeth, medrau a phrofiad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella hunanwerthuso, monitro a chynllunio gwelliant i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yr agweddau sydd angen eu gwella fwyaf

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu i sicrhau bod gwersi'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr

A3 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion wella a mireinio eu medrau ysgrifennu i wneud y cynnydd y gallant ei wneud

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol o ran datblygu eu medrau llafaredd, darllen a rhifedd.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn dechrau’r ysgol â medrau llafaredd islaw’r rhai sy’n ddisgwyliedig am eu hoedran. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn dechrau datblygu eu geirfa yn briodol, yn cymryd rhan mewn sgyrsiau ac yn rhannu syniadau am eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn gwrando ar, ac yn ymateb i, storïau yn briodol, gan siarad am gymeriadau a digwyddiadau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus a huawdl, ac yn mwynhau arwain cyflwyniadau mewn gwasanaethau ysgol gyfan a chyfarfodydd y corff llywodraethol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llyfrau lluniau ac yn dangos diddordeb mewn storïau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod seiniau llythrennau ac yn cyfuno’r rhain i ddarllen geiriau yn annibynnol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn darllen â chywirdeb a rhuglder addas. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod o strategaethau i ragweld, crynhoi a rhoi testunau mewn dilyniant. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn darllen yn hyderus ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr medrus erbyn iddynt adael yr ysgol.

At ei gilydd, mae cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu yn amrywio. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau cofnodi eu syniadau trwy greu marciau, ffurfio llythrennau a siapiau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml gyda chynigion synhwyrol o ran sillafu. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn dechrau ysgrifennu’n fwy estynedig ac at ystod o wahanol ddibenion. Wrth i’w medrau ddatblygu, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau ac amrywiaeth o strwythurau brawddeg yn effeithiol. Maent yn dechrau defnyddio atalnodi’n gywir i wella’u gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau sillafu a’u defnydd o atalnodi’n ddigon da. O ganlyniad, mae’r cynnydd a wna disgyblion mewn ysgrifennu yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau Cymraeg. Mae disgyblion iau yn mwynhau dysgu ymadroddion ac yn ymateb yn dda i gwestiynau syml am eu hoedran, ble maent yn byw a’r tywydd. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu ystod eang o eirfa ac yn dechrau rhoi atebion estynedig i gwestiynau. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn datblygu hyder

gwell wrth ofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg ac yn dod yn llai dibynnol ar sbardunau ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemategol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn defnyddio'u gwybodaeth am rif a data i ddatrys problemau mathemategol wrth archwilio'r bwydydd mwyaf a lleiaf poblogaidd, yn ystod diwrnod rhyngwladol blasu bwydydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau i gyfrifo cyfansymiau ac yn deall y gwahanol ffyrdd i fesur pwysau, hyd, cyfaint ac amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn plotio cyfesurynnau yn y pedwar cwadrant, yn adlewyrchu a throsi siapiau yn gywir ac yn defnyddio'r medr hwn wrth blotio symudiadau ar fap y byd wrth astudio bomio Pearl Harbour gan fyddin Japan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cofnodi data mewn tablau a graffiau wrth ymchwilio i'r gostyngiad mewn defnyddio glo. Maent yn defnyddio taenlenni i ddadansoddi nifer y marwolaethau yn y diwydiant cloddio glo ar draws cymoedd Cymru, ac yn llunio casgliadau o'u canfyddiadau.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol addas i gefnogi eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio dyfeisiau digidol i dynnu ffotograffau, creu darluniau ac ysgrifennu testun. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu siartiau bar o'u hoff fwydydd, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth i greu cronfeydd data. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau digidol i greu cyflwyniadau a ffilmiau byr diddorol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda phobl broffesiynol i greu animeiddiadau am eu treftadaeth leol gan ddefnyddio ystod eang o fedrau. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae disgyblion yn aml yn defnyddio a chymhwyso medrau digidol mewn ffordd sydd wedi'i chyfyngu i dasgau untro, ac nid ydynt yn datblygu ystod o fedrau digidol y gellir eu defnyddio'n bwrpasol mewn meysydd dysgu eraill yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn addas. Mae disgyblion iau yn mwynhau archwilio gwaith gwahanol arlunwyr ac maent yn efelychu a gwerthuso'u gwaith celf yn llwyddiannus. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn mwynhau defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu i greu creaduriaid y môr mewn ffurf 3D ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio ystod o wahanol fathau o baentiau a brwshys i greu gwaith celf ar gyfer Dydd y Cofio. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn dangos defnydd da o fanylder arlliw a chysgod yn eu gwaith ac yn creu paentiadau o ansawdd uchel. Trwy gydol y flwyddyn, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau perfformio dawnsiau ar gyfer y cartref gofal lleol, a chanu gyda'r côr lleol ar gyfer digwyddiadau dathlu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl ac mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau ymgymryd â phrofiadau chwaraeon gyda disgyblion o ysgolion lleol eraill.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser

cinio ac amseroedd egwyl. Maent yn garedig a pharchus at ei gilydd ac at staff, gan ddangos lefelau uchel o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

Mae gan lawer o ddisgyblion werthoedd cryf a chynhwysol, ac maent yn mynd ati i sicrhau bod holl aelodau cymuned eu hysgol yn cael eu cefnogi a'u cynnwys ym mywyd yr ysgol. Mae disgyblion hŷn yn gweithredu'n effeithiol fel cyfryngwyr cyfoedion i sicrhau bod gan bob disgybl gwmni i chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod i bwy i ofyn am gymorth, ac yn gwerthfawrogi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan staff.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i hyrwyddo gwerthoedd allweddol parch, cydweithrediad, cymwynasgarwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd. Maent yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau sy'n eu helpu i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu ac yn cymryd rhan mewn gwersi a gallant ddal ati i ganolbwyntio'n briodol. Fodd bynnag, mae ychydig o'r disgyblion ieuengaf yn ymddieithrio'n rhy gyflym ac yn cael anhawster gweithio'n ddiwyd. Mae hyn yn lleihau'r cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gweithio mewn parau a grwpiau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd i greu modelau o greaduriaid y môr fel rhan o strwythur 3D. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, maent yn dangos mwy o annibyniaeth a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn dechrau defnyddio'r adborth a roddwyd iddynt mewn gwersi i wneud gwelliannau i'w gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau myfyrio ar eu dysgu eu hunain ac ymateb i adborth ysgrifenedig y mae disgyblion.

Mae'r grwpiau arweinyddiaeth disgyblion a sefydlwyd yn ddiweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau arwain ac yn dechrau gwneud penderfyniadau ac arwain ar gamau gweithredu er budd cymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn creu ac yn arddangos posteri sy'n annog pob un o'r disgyblion i gynorthwyo pobl eraill â'u hemosiynau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5 yn perfformio caneuon a dawnsiau amser rhyfel yn eu cartref gofal lleol, ac mae hyn yn helpu datblygu eu hymwybyddiaeth a'u hempathi o anghenion pobl eraill yn y gymuned.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u hawliau ac yn myfyrio'n ystyriol ynghylch pam mae angen hawliau a rheolau yn yr ysgol ac yn y gymdeithas ehangach. Wrth ymateb i drafodaeth am yr hawl i fod yn ddiogel, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyrau at gwmnïau danfon lleol i ofyn iddynt osgoi amseroedd gollwng a chasglu er mwyn cadw disgyblion yn ddiogel. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymwybodol o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein a gallant siarad am bwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a beth fyddent yn ei wneud pe bai rhywun yn gas ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â diet a sut i'w cadw eu hunain yn gorfforol iach. Er enghraifft, maent yn dod â ffrwythau i'r ysgol ar gyfer eu byrbryd amser egwyl ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd trwy ailgylchu

sbwriel a gwastraff. Mae disgyblion yn mwynhau mynychu gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys pêl-rwyd, celf, rygbi a choginio i hyrwyddo pwysigrwydd ffyrdd iach o fyw ymhellach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda, ar y cyfan. Maent yn darparu cymorth effeithiol i reoli emosiynau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion clwstwr i ddatblygu ac ailgynllunio cwricwlwm yr ysgol. Mae athrawon yn dechrau datblygu dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ystyried cyd-destun yr ysgol a'i threftadaeth yn bwrpasol wrth gynllunio testunau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn astudio dirywiad y diwydiant cloddio glo ac yn ymweld â'r amgueddfa leol i ymestyn eu hastudiaethau. Mae athrawon hefyd yn trefnu ymweliadau gan aelodau o'r gymuned leol sy'n rhannu eu profiadau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ymweld â'r cartref nyrsio lleol i gyfweld â phreswylwyr am eu profiadau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae athrawon yn dechrau datblygu eu gwybodaeth bynciol i godi safonau mewn addysgu. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar ddarllen wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion mewn darllen. Fodd bynnag, mae gwybodaeth bynciol athrawon am feysydd eraill y cwricwlwm yn amrywio ac mae hyn yn effeithio ar ba mor dda y mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu. Yn rhy aml, nid yw gwersi'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion a cheir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi ei chwricwlwm a'i phrofiadau dysgu yn briodol. Mae staff yn gwneud defnydd da o amgylchedd dysgu awyr agored helaeth yr ysgol ac mae athrawon yn defnyddio lleoedd o ddiddordeb o fewn cymuned yr ysgol yn effeithiol i ysbrydoli dysgu. Er enghraifft, mae ymweliadau â chartref nyrsio lleol yn galluogi disgyblion ym Mlynyddoedd 4 a 5 i rannu eu dawnsiau jeifio gyda phreswylwyr a oedd yn byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd, tra bod disgyblion hŷn yn paratoi cwestiynau i breswylwyr ennill gwybodaeth uniongyrchol am anawsterau byw trwy'r rhyfel. Mae'r ysgol yn darparu llawer o brofiadau newydd a chyffrous ar gyfer disgyblion, fel coginio, tra bod disgyblion hŷn yn elwa ar ymweliad preswyl i ddatblygu eu medrau awyr agored. Caiff disgyblion yn y dosbarthiadau iau fynediad rheolaidd i ardaloedd awyr agored yr ysgol, gan gynnwys yr ardal goedwig a'r rhandir, ac mae'r amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel hyn yn galluogi disgyblion i ddysgu'n frwdfrydig trwy archwilio, ac yn helpu disgyblion i ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol â'u cyfoedion yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn dechrau cynllunio ystod o weithgareddau addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn dechrau cynllunio profiadau difyr a phwrpasol i ddatblygu medrau digidol disgyblion fel creu animeiddiadau a chyflwyniadau amlgyfrwng. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ei modelu'n dda, yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl.

Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Pan mae'r addysgu'n effeithiol, mae athrawon yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol disgyblion, mae disgyblion yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol i symud dysgu ymlaen ac egluro dealltwriaeth disgyblion. Pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r bwriadau dysgu bob amser yn glir ac nid yw gwersi'n diwallu anghenion mwyafrif o ddysgwyr yn ddigon da, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd. At ei gilydd, mae gormod o wersi nad ydynt yn adeiladu'n systematig ar ddysgu blaenorol disgyblion ac nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gallai disgyblion ei gyflawni bob amser yn ddigon uchel.

Mae ychydig o athrawon yn dechrau datblygu ansawdd eu hadborth i ddisgyblion. Pan mae adborth yn effeithiol, mae disgyblion yn dechrau ymateb, er enghraifft i wneud gwelliannau i'w gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y datblygiad hwn. At ei gilydd, mae marcio ac adborth yn wan, ac nid yw llawer o ddisgyblion yn gwybod beth maent yn ei wneud yn dda na beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn adnabod camgymeriadau pwysig yng ngwaith disgyblion ac mae disgyblion yn ailadrodd yr un camgymeriadau.

Megis dechrau datblygu y mae prosesau asesu'r ysgol. Mewn ychydig o enghreifftiau, pan fydd arweinwyr yn defnyddio asesu i nodi grwpiau o ddysgwyr a allai elwa ar gymorth ychwanegol ac yn cynllunio dysgu personoledig, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, mae gormod o athrawon nad ydynt yn defnyddio asesiadau o ddydd i ddydd, gan gynnwys marcio ac adborth, yn ddigon da i sicrhau bod profiadau dysgu'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd. O ganlyniad, nid oes gan athrawon ac arweinwyr ddarlun clir o'r cynnydd a wna pob un o'r disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn amgylchedd anogol ac yn cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion yn dda. Mae staff yn darparu ymyriadau addas i ddatblygu gwydnwch disgyblion ac yn cynorthwyo disgyblion i reoli eu hemosiynau eu hunain. Mae staff yn gweithio'n dda fel tîm i hyrwyddo diwylliant cryf o les, ac mae hyn yn treiddio ar draws yr ysgol. Mae hyn yn gryfder. Ar draws yr ysgol, mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau buddiol i gefnogi iechyd emosiynol disgyblion a'u teuluoedd. Mae gwaith gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol i gefnogi ymgysylltiad disgyblion ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol i ymgysylltu â rhieni'n llwyddiannus. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a benodwyd yn ddiweddar yn datblygu cysylltiadau cryf â sefydliadau lleol ac yn defnyddio'r cysylltiadau hyn yn effeithiol i gynorthwyo pobl eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y perthnasoedd rhwng yr ysgol a'r teuluoedd, gan helpu chwalu rhwystrau ac ennyn diddordeb rhieni yn nysgu eu plentyn.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau yn llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, ni chaiff ymddygiad ychydig o'r disgyblion ieuengaf ei reoli cystal, ac nid yw athrawon yn y gwersi hyn yn ymgysylltu ag ychydig o ddysgwyr yn ddigon da i helpu datblygu eu canolbwyntio a chynnal eu diddordeb mewn gwersi.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i nodi a chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Maent yn datblygu cynlluniau dysgu manwl sy'n rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion ac mae monitro rheolaidd yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd addas. Mae'r CydADY yn gweithio gyda chynorthwywyr addysgu i ddarparu ystod o ymyriadau effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag ADY.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddatblygu cariad disgyblion at ddarllen, yn ogystal â'u medrau darllen, ac i ennyn diddordeb disgyblion a'u rhieni'n llwyddiannus mewn profiadau darllen cadarnhaol, gan ddarparu amrywiaeth o lyfrau diddorol iddynt allu eu defnyddio gartref. Mae prosiect diweddar 'Reading Rhondda' yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd a diddordeb disgyblion mewn darllen.

Mae staff yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol a'i chymuned ehangach. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar lefel ysgol. Er enghraifft, cynhaliodd y Pwyllgor Parchu Hawliau fore coffi ar gyfer elusen ganser ac mae'n arwain gwasanaethau ysgol ar destunau fel gwrth-hiliaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd a chredoau pobl eraill a sicrhau eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy wersi a gweithredoedd addoli ar y cyd dyddiol. Yn ddiweddar, bu disgyblion yn archwilio bywyd Paul Robeson a'r effaith a gafodd ar y gymuned lofaol Gymreig yn Rhondda. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol fathau o ffydd, er enghraifft addysgu am wahanol wyliau fel Diwali, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o ddathliadau mewn diwylliannau eraill.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu hawliau ac yn hyrwyddo hyn trwy waith y grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion byd-eang, er enghraifft wrth roi bwyd i fanc bwyd lleol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am leoedd yng Nghymru ac yn ymweld â lleoedd ag iddynt arwyddocâd diwylliannol, gan gynnwys lleoedd o ddiddordeb yn eu hardal leol, i ddysgu am eu hanes. Mae'r ysgol yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am draddodiadau Cymreig trwy ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod flynyddol a chanu gyda'r côr meibion lleol.

Mae systemau cadarn ar waith i sicrhau diogeledd a diogelwch disgyblion a staff. Mae systemau cadarn ar waith i olrhain a monitro presenoldeb disgyblion. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r awdurdod lleol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd sydd â phresenoldeb is. Mae'r strategaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn arwain ag angerdd ac ymroddiad, gyda gweledigaeth i gyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer yr holl ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn. Mae arweinwyr yn gweithio'n galed i ddatblygu ysgol gynhwysol ac anogol lle mae staff a disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Ar y cyd â staff, mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau effeithiol rhwng yr ysgol, ei theuluoedd a'r gymuned ehangach.

O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi gweithio gyda staff i gyflawni gweledigaeth yr ysgol, sef 'Ysgogi Uchelgais' ('Inspiring Ambition'), ac mae'n defnyddio hyn i godi dyheadau i bawb. Trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill yn y fro, mae athrawon yn dechrau datblygu dealltwriaeth well o bob un o'r meysydd dysgu yng nghwricwlwm yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cwricwlwm pwrpasol sy'n darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i ymestyn profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau cynllunio'i chwricwlwm y mae'r ysgol, ac nid yw'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o gynnydd.

Mae arweinwyr a staff yn dechrau gwerthuso cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent wedi nodi ychydig o feysydd i'w datblygu yn gywir, fel darllen. Maent yn monitro pa mor dda y mae'r agwedd hon ar eu gwaith yn datblygu ac yn ystyried effaith y gwelliannau ar gynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn nodi hyfforddiant addas, yn datblygu gwybodaeth y staff am strategaethau i wella'u hymagweddau at addysgu ac yn defnyddio asesiadau i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da i lywio hunanwerthuso. O ganlyniad, nid yw cynllunio gwelliant bob amser yn blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf i'w datblygu, fel yr amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio gwybodaeth asesu i nodi anghenion disgyblion a'r rhai a allai elwa ar gymorth ychwanegol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon i addasu eu haddysgu neu gynllunio gwersi pwrpasol, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion disgyblion ar bob lefel. Nid yw gweithdrefnau monitro yn nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu yn ddigon da. O ganlyniad, nid eir i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu yn ddigon da. Er enghraifft, mae gwybodaeth bynciol athrawon i ddatblygu ysgrifennu disgyblion yn amrywio ar draws yr ysgol ac mae hyn yn effeithio ar y cynnydd a wna disgyblion mewn ysgrifennu.

Mae'r pennaeth yn dechrau adolygu rolau a chyfrifoldebau arweinwyr i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ysgol a'r cwricwlwm. Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu meysydd dysgu a phrofiad fel rhan o waith yr ysgol i gynllunio cwricwlwm addas ar gyfer yr holl ddisgyblion. Maent yn rhannu'r gwaith hwn gyda llywodraethwyr i sicrhau bod dealltwriaeth ar y cyd o sut mae'r cwricwlwm yn datblygu i gefnogi dysgu.

Mae systemau addas ar waith i gefnogi rheoli perfformiad ac mae'r rhain yn cysylltu â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn cynllunio hyfforddiant perthnasol ar gyfer staff ar bob lefel. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn mynychu hyfforddiant i wella'u dealltwriaeth o leferydd ac iaith ac yn defnyddio hyn i

ddarparu ymyriadau pwrpasol ac effeithiol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau hyfforddi staff bob amser yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac o ganlyniad, mae effaith yr hyfforddiant ar draws yr ysgol yn amrywio.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol i ddarparu ystod o adnoddau addas i gefnogi'r cwricwlwm a gwella amgylchedd yr ysgol. Maent yn gweithio'n agos gyda rhieni i godi arian i gynorthwyo â phrynu offer chwarae a chyfrannu at gost tripiau. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i ddarparu ymyriadau buddiol sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn dda mewn llafaredd a darllen, yn ogystal â chymorth emosiynol trwy gwnselydd yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Mae gan lywodraethwyr berthnasoedd gweithio cadarnhaol ag uwch arweinwyr ac ymwybyddiaeth briodol o flaenoriaethau gwella cenedlaethol. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiwygio ADY a'r camau y mae'r ysgol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi gweithio'n agosach nag yn y gorffennol gydag arweinwyr ac athrawon ar draws yr ysgol i ddatblygu eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn ffrind beirniadol wrth werthuso cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni ei nodau.

Mae staff a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel ac wedi creu diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a defnyddir grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn effeithiol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, ac yn defnyddio disgyblion hŷn yn effeithiol i arwain gwasanaethau wythnosol yn ddwyieithog.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/01/2024